# Uned 9: Persbectifau Cymdeithasegol

## Canllawiau cyflwyno

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn dod i ddeall y gwahanol bersbectifau a chysyniadau cymdeithasegol a gynigir gan y prif ddamcaniaethau a thraddodiadau meddwl. Byddant yn cwmpasu swyddogaetholdeb a theorïau rhyngweithiadol ac ôl-fodern, ac yn ystyried sut mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn ein ffyrdd o ymddwyn, ein perthnasoedd, ein gwerthoedd a'n strwythurau cymdeithasol. Byddant yn ymchwilio i sut mae cymdeithasegwyr yn cynnal eu gwaith ymchwil, gan edrych ar wahanol draddodiadau meddwl, ac ar sut caiff canfyddiadau'r ymchwil hon eu dehongli'n wleidyddol cyn eu cymhwyso i ddatblygiad polisi cymdeithasol mewn perthynas â'r gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol.

### Mynd i'r afael â'r uned

Bydd yr uned hon o ddiddordeb a defnydd arbennig i ddysgwyr sy'n gobeithio cael gyrfa ym maes llunio polisi neu reolaeth mewn unrhyw un o'r gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol. O ganlyniad, bydd yn gyfle i chi drafod diben, natur, rolau a chyfrifoldebau'r galwedigaethau ar hyd y cyfnod cyflwyno. Mae cysylltiad agos rhwng cynnwys yr uned ac *Uned 6: Y Llywodraeth a'r Gwasanaethau Amddiffyn*, *Uned 2: Ymddygiad a Disgyblaeth yn y Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol*, ac *Uned 13: Cyflwyniad i Droseddeg*. Os bydd protocolau eich canolfan yn caniatáu hynny, gallai ymdrin â'r cyflwyno mewn modd cyfunedig, integredig fod o fudd i'ch dysgwyr trwy roi golwg gyfannol iddynt ar y rhesymeg y tu ôl i weithrediad y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol.

Mae llawer o'r uned wedi'i seilio ar theori a gwaith dosbarth, felly argymhellir eich bod yn rhannu'r addysgu gymaint â phosib â fideos ac astudiaethau achos – mae YouTube yn darparu cyfoeth o fideos rhagarweiniol byr.

Diben **Nod dysgu A** yw cyflwyno eich dysgwyr i'r cysyniadau allweddol sy'n sylfaen ar gyfer unrhyw astudiaeth gymdeithaseg, cyn rhoi'r cysyniadau hyn yn eu cyd-destun trwy asesu a gwerthuso eu heffaith ar y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol. Mae llawer o fideos rhagarweiniol diddorol ar gael ar YouTube (chwiliwch ar YouTube am '*What is Sociology*').

Mae **Nod dysgu B** yn gofyn bod y dysgwyr yn archwilio'r dulliau ymchwil a ddefnyddir gan gymdeithasegwyr i gyrraedd eu canfyddiadau. Rhaid i'r dysgwyr archwilio dulliau ymchwil positifiaethol, dulliau ymchwil deongliadol, a dulliau samplo.

Mae **Nod dysgu C** yn gofyn bod y dysgwyr yn archwilio effaith theori ac ymchwil cymdeithasegol ar y polisïau sy'n pennu gwaith y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol. Er mwyn ennyn diddordeb eich dysgwyr, gallai fod yn briodol iddynt nodi eu prif faes diddordeb a chyfeirio eu gwaith ar gyfer y nod dysgu hwn at bolisi/wasanaeth sydd o ddiddordeb arbennig iddynt – mae rhestr o dopigau posibl yn y Canllawiau Asesu isod.

## Model asesu

<table>
<tr><th>Nod dysgu</th><th>Meysydd cynnwys allweddol</th><th>Dull asesu a argymhellir</th></tr>
<tr><td>A Ymchwilio i’r theorïau sy’n sylfaen ar gyfer gwyddor cymdeithaseg</td><td>A1 Y prif themâu sy’n deillio o astudio cymdeithaseg<br>A2 Strwythurau cymdeithasol<br>A3 Theorïau a damcaniaethwyr cymdeithasegol</td><td>Adroddiad sy’n gwerthuso cysyniadau allweddol cymdeithaseg.</td></tr>
<tr><td>B Archwilio’r dulliau ymchwil a ddefnyddir gan gymdeithasegwyr i gyrraedd eu canfyddiadau</td><td>B1 Dulliau ymchwil positifiaethol<br>B2 Dulliau ymchwil deongliadol<br>B3 Samplo</td><td rowspan="2">Prosiect ymchwil sy’n cynnwys ymchwilio i gymhwysiad canlyniadau dulliau ymchwil cymdeithasegol a’u nodi wrth ddatblygu polisïau sy’n effeithio ar y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol.<br>Astudiaeth achos ar sut mae polisi cymdeithasol wedi dylanwadu ar ymateb gwasanaeth amddiffyn penodol sydd â gwisg swyddogol.</td></tr>
<tr><td>C Archwilio effaith theori ac ymchwil cymdeithasegol ar y polisïau cymdeithasol sy’n pennu gwaith y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol</td><td>C1 Persbectifau cymdeithasegol ar bolisi cymdeithasol<br>C2 Dylanwad cymdeithaseg ar bolisi<br>C3 Sut mae polisi cymdeithasol yn dylanwadu ar ffurf y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol</td></tr>
</table>

## Canllawiau asesu

Asesir yr uned hon yn fewnol trwy nifer o dasgau. Rhaid i'r dysgwyr gynhyrchu tystiolaeth unigol y gellir ei dilysu. Mae'n debygol mai'r prif ffynonellau tystiolaeth fydd adroddiadau ysgrifenedig ar gyfer cymhwyso, dadansoddi a gwerthuso'r meysydd cynnwys allweddol. Dylai Nod dysgu A gynnwys cynhyrchu adroddiad unigol. Gan fod Nod dysgu A yn ymchwilio i'r theorïau sy'n sylfaen ar gyfer cymdeithaseg, mae'n bosib iawn y bydd arddangosfa sy'n dangos rhyng-gysylltedd y prif themâu, y strwythurau cymdeithasol, y theorïau a'r damcaniaethwyr yn addas, ond bydd angen rhoi cyfle i'r dysgwyr asesu effaith y rhain ar y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol, a hefyd eu gwerthuso.

Ar gyfer Nod dysgu B, bydd angen i'r dysgwyr esbonio ac yna cymharu, dadansoddi a gwerthuso'n gyffredinol wahanol ddulliau ymchwil a ddefnyddir gan gymdeithasegwyr, cyn dethol a chanolbwyntio ar y rhai a ddefnyddir yn benodol yn eu hastudiaeth achos polisi ar gyfer Nod dysgu C.

Rhaid i'r dysgwyr wahaniaethu rhwng dulliau ymchwil positifiaethol, deongliadol a samplo. Mae'r canlynol yn grynodeb byr o'r hyn y gellid ei ddisgwyl, a dylid cynnwys enghreifftiau o ddefnydd pob un o'r mathau o ddulliau ymchwil:

Dulliau positifiaethol:

- Mae ymchwil sylfaenol yn galw am gyfweld neu gyflwyno holiaduron neu arolygon ysgrifenedig i niferoedd mawr o bobl. Bydd yr ymchwilydd yn dadansoddi'r data a gesglir o arolygon er mwyn dysgu am nodweddion tebyg, gwahaniaethau a thueddiadau. Yna bydd ef neu hi yn gwneud rhagfynegiadau ynghylch y boblogaeth sy'n cael ei hastudio.

  Manteision y dull ymchwil hwn yw ei fod yn galluogi casglu gwybodaeth gan nifer fawr o ymatebwyr, mae'n rhad ac yn gyfleus.

  Yr anfanteision yw bod y canlyniadau'n gallu cynnwys tueddiadau gwirfoddolwyr, tueddiadau cyfwelwyr a llurgunio.
- Defnyddir data eilaidd neu ystadegau swyddogol pan fydd casglu data newydd yn anymarferol neu'n ddiangen. Gall cymdeithasegwyr sicrhau data ystadegol i'w ddadansoddi gan fusnesau, sefydliadau academaidd, ac asiantaethau'r llywodraeth.

  Prif fantais y dull ymchwil hwn yw ei fod yn arbed amser, gan fod y data sylfaenol eisoes wedi'i gasglu. Ymhlith yr anfanteision mae tueddiadau gwleidyddol posibl.

Dulliau deongliadol:

- Mae ymchwil ddeongliadol yn golygu arsylwi ymatebion y bobl sy'n destun yr ymchwil yn uniongyrchol, naill ai mewn labordy neu mewn cyd-destun naturiol.

  Manteision y math yma o ymchwil yw bod llai o bosibilrwydd na fydd testunau'r ymchwil yn rhoi cyfrif am eu profiadau yn gwbl onest. Mae'r testunau yn fwy tebygol o gymryd yr astudiaeth o ddifri ac yn llai tebygol o deimlo embaras. Mae'r math yma o ymchwil yn tueddu i roi canlyniadau mwy cywir, gan fod ymddygiad y testunau'n cael ei arsylwi'n uniongyrchol, yn hytrach na bod y testunau'n gorfod meddwl yn ôl wrth gwblhau arolwg a chofio sut gwnaethon nhw ymddwyn.

  Ymhlith anfanteision y dull hwn mae'r posibilrwydd o dueddiadau'r bobl sy'n destun yr ymchwil. Gall unigolion sy'n cytuno i fod yn destun arsylwi a monitro weithredu mewn ffordd wahanol i'r rhai sydd ddim. Gall testunau weithredu'n wahanol hefyd yng nghyd-destun labordy i sut bydden nhw'n ymddwyn yn eu bywyd pob dydd.

- Mae ymchwil arbrofol yn ceisio canfod sut a pham mae rhywbeth yn digwydd. Mae'n profi sut mae newidyn annibynnol yn effeithio ar newidyn dibynnol.

  Manteision ymchwil arbrofol yw ei bod yn defnyddio hap-samplau cynrychioliadol o'r boblogaeth sy'n cael ei hastudio.

  Ymhlith yr anfanteision mae posibilrwydd tueddiadau'r arbrofwr ac effaith newidynnau o'r tu allan.

Ar gyfer Nod dysgu C, dylid rhoi sylw i'r canlynol wrth archwilio persbectifau cymdeithasegol ar bolisi cymdeithasol:

- Positifiaethyddion – maen nhw'n defnyddio dulliau gwyddonol, meintiol i wneud gwaith ymchwil. Maent yn credu y dylai cymdeithaseg ddefnyddio dull gweithredu tebyg i astudio cymdeithasau i'r hyn y mae'r gwyddorau naturiol (e.e. bioleg a ffiseg) yn ei ddefnyddio i astudio'r byd naturiol. Eu nod yw sicrhau dealltwriaeth gwyddonol o sut mae cymdeithasau'n gweithio ac yn ymddwyn. Byddai positifiaethyddion yn defnyddio'r dystiolaeth o ffeithiau gwrthrychol, a gasglwyd yn wyddonol (achos ac effaith), i helpu i ffurfio polisi cymdeithasol a chyflawni newidiadau cadarnhaol mewn cymdeithas. Maen nhw'n tueddu i ffafrio'r dull darniog o fynd i'r afael ag un broblem gymdeithasol ar y tro.

  Mae Marcsyddion yn beirniadu'r dull darniog hwn, ac yn dadlau ei fod yn anwybyddu materion cymdeithasol ehangach. Er enghraifft, gallai canolbwyntio ar wella addysg yn unig i leihau tlodi anwybyddu materion ehangach sydd hefyd yn achosi tlodi.
- Realyddion: Daeth realaeth adain chwith i'r amlwg o droseddeg feirniadol, ac mae'n dadlau bod troseddu'n fwy amlwg ymhlith y dosbarthiadau gweithiol. Mae'n credu bod rhaid i reoli troseddu adlewyrchu natur y drosedd, ac mae'n dadlau bod atebion sy'n cynyddu gormes yn gallu arwain at gynnydd mewn troseddu yn eu tro. Gwelir plismona fel mesur ataliol pwysig, cyhyd â bod gan gymdeithas reolaeth ddemocrataidd ar yr heddlu. Credir hefyd ei fod yn hanfodol bod dylanwad gan ddemocratiaeth ar ddatblygiad mesurau ataliol a datblygiad polisi yn gyffredinol. Mae realyddion adain chwith yn credu mai dim ond trwy ymyrraeth amlasiantaeth y mae modd mynd i'r afael â realiti troseddu.
- Realyddion Adain Dde: mae realyddion adain dde yn credu y dylai deddfau troseddol fod yn ddiamwys a chael eu gorfodi'n llym. Ni ddylai dedfrydu troseddwyr geisio'u trin na'u diwygio, gan nad yw'r dulliau gweithredu hynny'n effeithiol. Yn hytrach, dylid gorfodi cosbau llym er mwyn diogelu'r cyhoedd, atal eraill rhag troseddu, a gweithredu fel ad-daliad cymdeithasol. Mae'r pwyslais ar drefn a disgyblaeth, gan fod troseddu'n bwydo ar ddisgyblaeth gymdeithasol wael.
- Marcsyddion – mae Marcsyddion o'r farn bod defnyddio ymchwil gymdeithasegol i ddylanwadu ar bolisi yn cynnal y wladwriaeth gyfalafol yn hytrach na'i beirniadu. Yn eu barn nhw mae polisïau yn cael eu creu er budd y dosbarth sy'n rheoli. Bydden nhw'n dadlau bod polisïau megis lles yn cael eu creu mewn ymgais i ddangos bod y wladwriaeth gyfalafol yn gofalu am y dosbarthiadau nad ydynt yn rheoli, ond mai ymgais arall i gynnal yr ecsbloetio yw hyn mewn gwirionedd.
- Ffeministiaeth – oherwydd y batriarchiaeth, mae polisïau yn gwneud rhagdybiaethau ynghylch pobl mewn cymdeithas, e.e. mae polisïau teulu o fudd i deuluoedd priod gwahanrywiol. Mae ffeministiaeth wedi bod yn fwyaf dylanwadol ar addysg a hyfforddiant athrawon. Mae ffeminyddion rhyddfrydol yn credu bod polisïau gwrthwahaniaethol yn rhyddhau benywod, gan eu galluogi i ddewis gyrfaoedd a allai gael eu gweld yn fwy traddodiadol fel rhai lle mae gwrywod yn fwy amlwg, er enghraifft rolau milwyr troed neu forwyr tanfor. Mae syniadau ffeministaidd radical ynghylch ymwahaniaeth hefyd yn effeithio ar bolisi, er enghraifft trwy newid polisi i gefnogi dioddefwyr trais domestig trwy roi hawliau cyfreithiol ychwanegol iddyn nhw.

- Yr Adain Dde Newydd – maen nhw'n gwrthwynebu ymyrraeth y wladwriaeth ym mywydau pobl gan fod hynny'n dileu rhyddid pobl i ddewis, yn tanseilio cyfrifoldeb cymdeithasol, ac yn gwanhau hunanddibyniaeth. Er enghraifft, cynigiodd *Breakdown Britain*, adroddiad ceidwadol gan y Grŵp Polisi Cyfiawnder Cymdeithasol (2007), restr o bolisïau newydd fyddai'n hybu priodas, dosbarthiadau magu plant a mamau'n aros gartref.

  Mae beirniaid yr Adain Dde Newydd yn cwestiynu dilysrwydd peth ymchwil am y cysylltiad rhwng tadau absennol a throseddu. Mae beirniaid hefyd yn dadlau bod tuedd i bolisïau'r Adain Dde Newydd beidio â defnyddio ymchwil gymdeithasegol go iawn, gan ffafrio melinau trafod yn lle hynny.
- Mae ôl-fodernyddion yn credu bod angen deall gwybodaeth ei hun mewn ffordd wahanol oherwydd bod ein cymdeithas wedi newid cymaint yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Maen nhw'n dadlau bod cymdeithas bellach wedi globaleiddio'n fwy, ac eto'n ddarniog, yn dibynnu'n fwy ar ddefnyddwyr a'r cyfryngau, ac nad yw theorïau creiddiol traddodiadol cymdeithaseg bellach yn berthnasol.

Gellid rhoi astudiaeth achos o bolisi cymdeithasol i'r dysgwyr ei archwilio. Gallai'r dewis ddibynnu ar eu diddordeb o ran gyrfa, neu gallech chi ei ddiffinio. Mae'n hanfodol bod yr aseswyr yn sicrhau bod gwaith y dysgwyr yn annibynnol, hyd yn oed os gwneir peth o'r paratoi a'r ymchwil ar y cyd. Rhaid bod dyfnder digonol i'r topigau i ganiatáu cyfiawnhau'r polisi, a gallent gynnwys unrhyw rai o'r canlynol, neu feysydd eraill addas:

- Iechyd (y GIG)
- Gwaith cymdeithasol
- Addysg (prydau ysgol am ddim/codi oed cyfranogiad)
- Troseddu a phlismona
- Polisi dedfrydu
- Y Wladwriaeth Les
- Consgripsiwn milwrol (chwiliwch ar-lein am '*The Telegraph: Conscription 100 years on: how would enlistment work in 2016?*' i weld man cychwyn diddorol)
- Rolau rhywedd yn y Lluoedd Arfog.

Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i'r polisi a ddewiswyd ac yn cofnodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gan gymdeithasegwyr i'w baratoi a'i ddatblygu. Rhaid iddyn nhw greu cysylltiadau rhwng y polisi, strwythurau cymdeithasol a phersbectifau cymdeithasegol perthnasol.

Dylid archwilio cyfiawnhau gwerth theori ac ymchwil cymdeithasegol nid yn unig â thystiolaeth o'r mannau lle bu/lle na fu yn effeithiol, ond hefyd gan gyfeirio at y ddadl: ddylai cymdeithasegwyr ymwneud ag ymchwil polisi cymdeithasol o gwbl, o ystyried y credoau cymdeithasegol gwrthgyferbyniol iawn a nodwyd uchod?

## Cychwyn arni

**Yma cewch fan cychwyn ar gyfer un dull o gyflwyno'r uned, wedi'i seilio ar y dull asesu a argymhellir yn y fanyleb.**

| **Uned 9: Persbectifau Cymdeithasegol** |
|---|
| **Cyflwyniad**<br>Bydd y dysgwyr yn dod i ddeall y gwahanol bersbectifau a chysyniadau cymdeithasegol a gynigir gan y prif ddamcaniaethau a thraddodiadau meddwl. Byddant yn ymchwilio i sut mae cymdeithasegwyr yn cynnal eu gwaith ymchwil, gan edrych ar y gwahanol ddulliau a ddefnyddir gan wahanol draddodiadau meddwl, ac yna ar sut caiff canfyddiadau'r ymchwil eu dehongli'n wleidyddol, cyn eu cymhwyso i ddatblygiad polisi cymdeithasol mewn perthynas â'r gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol. |
| **Nod dysgu A: Ymchwilio i'r theorïau sy'n sylfaen ar gyfer gwyddor cymdeithaseg** |
| Gan fod cymdeithaseg yn debygol o fod yn bwnc cwbl newydd i'r dysgwyr, bydd angen sicrhau cyflwyniad effeithiol, gan y gallai'r themâu a'r theorïau fod yn gysyniadau gwahanol iawn i unrhyw beth maen nhw wedi'i wneud o'r blaen.<br>• Y ffordd orau o gyflwyno'r themâu, ar gyfer A1, a'r theorïau, ar gyfer A3, fyddai trwy gyflwyniadau tiwtor i sicrhau cywirdeb. Gellid ychwanegu diddordeb ac amrywiaeth trwy ddefnyddio ystod o adnoddau sydd ar gael yn hwylus ar-lein. Mae gan YouTube nifer o fideos defnyddiol sy'n cyflwyno cymdeithaseg (chwiliwch ar YouTube am '*what is sociology?*')<br>• Mae'n bwysig rhoi sylw trylwyr i'r prif themâu sy'n deillio o astudio cymdeithaseg, a sicrhau bod eich dysgwyr wedi datblygu nodiadadau cynhwysfawr a dealltwriaeth dda o'r pwnc cyn iddynt symud ymlaen at Nod dysgu C.<br>• Gallai'r dysgwyr ymchwilio i strwythur cymdeithasol cymdeithas, ar gyfer A2, trwy weithio mewn grwpiau bach. Gellid dyrannu 'arbenigwr' i bob grŵp ar bob un o'r strwythurau cymdeithasol (e.e. diwylliant, crefydd neu system gred, addysg, rhwydweithiau teulu, cydymffurfio). Dylai'r 'arbenigwyr' ymchwilio i bwrpas eu strwythur cymdeithasol, sut mae'r strwythur wedi esblygu a'i effaith, yn arbennig ar ymddygiad. Yna bydd yr 'arbenigwr' yn dysgu gweddill y grŵp am y strwythur fu'n destun eu gwaith ymchwil, fel bod pob aelod o'r grŵp yn y diwedd yn meddu ar ganllaw cynhwysfawr a fydd yn eu galluogi i ddadansoddi effaith strwythurau cymdeithasol ar y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol. |
| **Nod dysgu B: Archwilio'r dulliau ymchwil a ddefnyddir gan gymdeithasegwyr i gyrraedd eu canfyddiadau** |
| Er y bydd y dysgwyr yn gyfarwydd â chasglu barn trwy ymchwil arolygon etc, bydd gwyddor dulliau ymchwil yn newydd iddynt. Mae nifer o fideos ar YouTube sy'n cyflwyno dulliau ymchwil. Chwiliwch ar YouTube am '*introduction to research methods*'. Gallai fod yn ddefnyddiol cyflwyno'r dysgwyr i'r sefydliadau sy'n gwneud gwaith ymchwil cymdeithasegol ar ran y llywodraeth a'u bod yn datblygu dealltwriaeth o sut mae'r ymchwil honno'n cael ei chyhoeddi:<br>• Gallai'r dysgwyr weithio ar ddiffiniadau o ddulliau ymchwil positifiaethol, dulliau ymchwil deongliadol a mathau o samplo, ac yna eu rhoi yn eu cyd-destun trwy eu harchwilio yng nghyd-destun y prosiectau ymchwil pwysig isod.<br>    ○ Edrychwch ar ddulliau ymchwil Ipsos Mori.<br>    ○ Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus – tuedd wleidyddol? |

- Arolwg Trosedd Prydain – sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu?
- Y cyfrifiad – pam mae hyn yn bwysig, pwy sy'n ei ddefnyddio a pham?

- Gallai'r dysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth hon i fynd ymlaen i ystyried, efallai ar ffurf trafodaeth grŵp, manteision ac anfanteision gwahanol ddulliau ymchwil, yn arbennig yng nghyd-destun yr astudiaethau a restrir uchod. Byddai hyn yn helpu'r dysgwyr i werthuso'r gwahanol ddulliau ymchwil a ddefnyddir gan gymdeithasegwyr.

**Nod dysgu C: Archwilio effaith theori ac ymchwil cymdeithasegol ar y polisïau cymdeithasol sy'n pennu gwaith y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol**

Er mwyn cyflwyno Nod dysgu C, mae gan *slide share* gyflwyniad defnyddiol y gellid ei ddefnyddio neu ei addasu i fod yn briodol (chwiliwch ar-lein am '*slide share sociology and social policy*').

Gellid rhoi polisi cymdeithasol i'r dysgwyr, y gallant ei archwilio'n annibynnol yng ngoleuni'r deunydd y buont yn dysgu amdano yn y ddau nod dysgu blaenorol. Gweler y canllawiau asesu uchod am enghreifftiau. Os yw'r dysgwyr yn arbennig o bryderus ynghylch sut mae mynd ati i wneud hynny, gallech chi gydweithio fel dosbarth i 'fodelu' polisi fel enghraifft ymarferol. Byddai hynny'n rhoi fframwaith iddynt ar gyfer dyfeisio eu prosiect neu eu hastudiaeth achos eu hunain. Mae'n bwysig nad oes neb o'r dysgwyr yn defnyddio'r un polisi â'r un y bu'r dosbarth yn gweithio arno fel polisi asesu.

- Gan ragdybio bod Nod dysgu A3 wedi derbyn sylw trylwyr, bydd gan y dysgwyr wybodaeth ddigonol i roi eu polisi yn ei gyd-destun o ran Nod dysgu C1, trwy esbonio pa bersbectif(au) cymdeithasegol sydd wedi bod yn rhan o ddatblygiad y polisi cymdeithasol y buont yn ymchwilio iddo. Dylai'r dysgwyr ystyried hefyd ddylanwad cymdeithaseg ar esblygiad parhaus eu polisi (Nod dysgu C2).
- Er i'r erthygl ganlynol gael ei hysgrifennu yn 2012, mae'n rhoi cipolwg gwerthfawr ar rôl barn gyhoeddus wrth lunio polisi. Chwiliwch ar-lein am '*The Guardian: Public opinion can play a positive role in policy making*'. Mae'n adnodd defnyddiol ar gyfer Nod dysgu C2: dylanwad cymdeithaseg ar bolisi.
- Mae adroddiadau blynyddol a misol Ipsos Mori ar *Understanding Society* (y ceir hyd iddynt trwy chwilio ar-lein am '*Ipsos MORI understanding society*') yn offeryn gwerthfawr ar gyfer cyflwyno pryderon a materion cyfredol iawn i'r dysgwyr. Bydd yr adroddiadau yn golygu bod gan y dysgwyr fynediad at ganfyddiadau ymchwil ac o bosib yn helpu i ysbrydoli eich/eu detholiad o bolisi cymdeithasol y dylanwadwyd arno gan gymdeithaseg ac sydd, o ganlyniad, yn dylanwadu ar waith y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol.

### Manylion y cysylltiadau ag unedau a chymwysterau BTEC eraill

Mae’r uned hon yn cysylltu â’r canlynol:

- Uned 2: Ymddygiad a Disgyblaeth yn y Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol
- Uned 13: Cyflwyniad i Droseddeg
- Uned 16: Sgiliau Ymchwil yn y Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol.

## Adnoddau

Yn ogystal â’r adnoddau a restrir isod, mae cyhoeddwyr yn debygol o gynhyrchu gwerslyfrau a gymeradwywyd gan Pearson sy’n cefnogi’r uned hon o’r BTEC Cenedlaethol mewn Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol. Edrychwch ar wefan Pearson: http://qualifications.pearson.com/endorsed-resources i gael rhagor o wybodaeth wrth i deitlau gael eu cymeradwyo.

#### Gwerslyfrau

Osborne, Richard: *Sociology for Beginners* Cyhoeddwr: Zidane Press; Argraffiad newydd (8 Gorffennaf 2016) ISBN-13: 978-0956267870

Man cychwyn gwych ar gyfer cyflwyniadau ac esboniadau diffwdan. Mae’r elfennau gweledol yn well mewn argraffiadau cynharach.

#### Fideos

Mae YouTube yn adnodd gwych ar gyfer yr uned hon. Mae nifer fawr o fideos a chyflwyniadau ar-lein a gynhyrchwyd gan brifysgolion a myfyrwyr, a fydd yn helpu i ychwanegu amrywiaeth i’r deunydd a gyflwynwch.

#### Gwefannau

Mae Cymdeithas Polisi Cymdeithasol yn gymdeithas ddysgedig ac yn elusen. Eu diben yw hyrwyddo addysgu, ymchwil a lledaenu gwybodaeth ym maes polisi cymdeithasol. Mae ganddynt wefan ddefnyddiol y ceir hyd iddi trwy chwilio ar-lein am ‘*social policy.org*’ a fydd o gymorth gyda syniadau ar gyfer astudiaethau achos ac ymchwil.

Sefydliad ymchwil gymdeithasol yw IPSOS sy’n arbenigo mewn deall meysydd polisi fel plismona, iechyd a’r economi. Mae Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol Ipsos MORI yn rhannu’r negeseuon o’u gwaith ymchwil gyda llywodraeth leol a chenedlaethol, gan gredu y bydd dealltwriaeth well o agweddau’r cyhoedd yn arwain at well polisi ac ymarfer. Ceir hyd i’w gwefan trwy chwilio ar-lein am ‘Ipsos’.